

# DOLEN Y TAB 102

15 - 16 Ebrill 2022

## Oedfa Gymun Sul y Pasg am 11

Yng ngofal y Parchedig Eirian Rees a  
Rhiannon Humphreys  
gyda Sian Elin wrth yr organ.

### YR OEDFAON NESAF

#### Ebrill

24 Yng nghwmi Allan James

#### Mai

1 Yng ngofal Ann ac Emlyn Davies  
8 Yng nghwmni'r Parchedig Aled Edwards  
a Iestyn Morris  
15 Sul Cymorth Cristnogol

### Hefyd ddydd Sul 17 Ebrill

#### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Oedfa Sul y Pasg gydag Andy John, Archesgob yr  
Eglwys yng Nghymru, yn trafod newyddion da mewn  
dyddiau anodd ac agoswydd Crist at bobl mewn  
ansicrwydd ac anobaith.

#### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a  
chrefyddol.

#### 19.00 - 20.00 Dechrau Canu Dechrau Canmol - Sul y Pasg

Daw'r rhaglen awr o Fangor wrth i ni ddathlu'r Pasg.  
Cawn gydganu rhai o'n hoff emynau o dan arweiniad  
Cefin Roberts.

#### E-Fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

### TREFNIADAU'R OEDFA BORE SUL

Am y tro disgwylir i bawb wisgo mwgwd ar y  
llawr gwaelod, ond os nad ydych am wisgo  
mwgwd yna gallwch eistedd yn y galeri. Bellach  
nid oes gofyn i chi archebu sedd ymlaen llaw.

## Cofio Carol

Merch o Gaerdydd oedd Carol – merch y Pethe – ac  
roedd parhad y diwylliant Cymraeg yn ei milltir  
sgwâr yn hollbwysig iddi ac yn agos at ei chalon.  
Roedd hi'n rhan o fwrlwm pob gweithgaredd  
Cymraeg yn yr ardal, gan gyfrannu at eu ffyniant.  
Nid un i laesu dwylo mohoni, boed yn aelod o gorau  
neu gymdeithasau amrywiol.

Nid llai ei hymroddiad i fywyd y capel yn y  
Tabernacl. Ers dod yn aelod yn yr 1970au, roedd  
Carol bob amser yn barod i rannu cyfrifoldebau. Tra  
oedd Llio ac Awen yn blant ac yn ferched ifanc,  
rhannai'r baich o gynnal yr Ysgol Sul a Theulu Twm.  
Bu'n arolygydd ac athrawes yn yr Ysgol Sul, ac yna  
bu'n helpu gyda rhedeg gweithgareddau Teulu  
Twm. Gwelwyd hi'n cyfrannu'n gyson mewn  
oedfaon, yn enwedig y rhai a drefnid gan ardal  
Pentyrch.

Daeth tro ar fyd yn y Tabernacl yn dilyn ymddeoliad  
y Parch. Eirian Rees, a daeth trefn newydd i  
fodolaeth. Etholwyd Bwrdd o Gyfarwyddwyr i ofalu  
am fuddiannau'r capel a Carol oedd yr ail i  
ymgydryd â dyletswyddau Ysgrifennydd y Bwrdd –  
swydd gyfrifol a gyflawnodd â'i thrylwyredd arferol.

Cofiwn yn annwyl amdani a diolchwn am bob  
cyfraniad i gyfoethogi bywyd y Tabernacl.

Roedd y dorf a ddaeth i'w hangladd yn dyst i'r parch  
oedd iddi yn ein cymuned, ac mae'n cydymdeimlad  
mwyaf diffuant gyda Penri, Llio ac Awen yn eu galar.

*Gwenfil Thomas*

### Rhestr Flodau

Gair i'ch atgoffa bod y rhestr flodau am y  
flwyddyn 2022 wedi ei gosod yn ei lle arferol ar yr  
hysbysfwrdd yng nghyntedd y capel. Mae croeso  
i chi dorri eich enw ar gyfer Sul sy'n gyfleus. Ar  
hyn o bryd, mae nifer fawr o Suliau gwag y  
medrwyd ddewis o'u plith.

# Briwsion o'r Bwrdd

Er mai ymateb i'r newidiadau cyson i'r cyfyngiadau ar ein hoedfaon yn sgil Covid sydd wedi derbyn prif sylw'r Bwrdd ers dechrau'r flwyddyn cafodd nifer o faterion eraill eu gwyntyllu. Dyma grynodedb byr o rai ohonynt:

**Oedfaon Hybrid:** Derbyniwyd argymhelliad gan y Gweithgor Uwchraddio Offer yng nghyfarfod mis Chwefror fod y Tabernacl yn cyflwyno ceisiadau i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen a Chyfundeb Dwyrain Morgannwg am nawdd i'w galluogi i uwchraddio'r offer er mwyn medru ffrydio oedfaon yn fyw i'r rhai nad oedd yn medru mynychu'r capel am wahanol resymau. Eisoes llwyddwyd i dderbyn grant am £1,500 gan Ymddiriedolaeth Pantyfedwen a gobeithiwn glywed cyn diwedd y mis a fu'r ail gais yn llwyddiannus. Yn y cyfamser rydym yn ddyledus i Hefin Gruffydd ac Aled Illtud am ffrydio'r oedfaon drwy eu ffonau symudol.

**Ffioedd y Fynwent:** Cytunwyd i ddiwygio'r ffioedd i'w codi ar deuluoedd o fewn y gymuned oedd am i weddillion eu hanwyliaid orwedd ym mynwent y capel. Roedd gwir angen diweddarau'r taliadau hyn ers tro byd ac rydym yn ddiolchgar iawn i Edwyn am ei ddycnwch wrth setlo'r mater dyrys hwn. Cadarnhawyd hefyd nad oedd gofyn i'r sawl sydd â chysylltiad dilys â'r Tabernacl, neu'n perthyn yn agos i aelod o'r eglwys, dalu'r ffioedd hyn.

**Adroddiadau Misol:** Derbyniwyd adroddiadau rheolaidd gan Bwyllgor y Meddiannau a'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol a chanmolwyd y ddau bwyllgor sy'n cyflawni gwaith mor bwysig i gynnal yr achos, y naill trwy sicrhau diogelwch y gynulleidfa a'r cyhoedd ac am gynnal a chadw eiddo'r eglwys, yn enwedig datblygu'r ardd gymunedol, a'r llall am estyn llaw yn feunyddiol i deuluoedd ac unigolion mwyaf anghenus yr ardal wrth godi arian a dosbarthu amrywiol nwyddau i'w cynnal. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn adroddiad misol gan Eleri Mai, ein Swyddog Ieuenctid a Chymunedol hynod ymroddgar, ac yn rhyfeddu at yr holl amrywiaeth o weithgareddau arloesol mae'n ddarparu i'r bobl ifanc, ymhlith pethau eraill. Da oedd deall bod ganddi hefyd gynlluniau cyffrous ar y gweill ar gyfer y gwanwyn a'r haf.

**Costau Tanwydd:** Yng nghyfarfod mis Ebrill o'r Bwrdd cafwyd newyddion i'n sobri pan dderbyniodd Arwyn Jones, Trysorydd y Capel, lythyr gan SSE gyda thelerau'r cytundeb newydd i gyflenwi'r trydan i'r capel am y ddwy flynedd nesaf sydd yn fwy na dwbl y gost bresennol. Mae aelodau Pwyllgor y Meddiannau wedi holi er mwyn gweld a oes modd sicrhau cytundeb rhatach, ond oherwydd y cynnydd diweddar mewn costau tanwydd a'r ansicrwydd rhyngwladol nid yw'r rhagolygon ar hyn o bryd yn obeithiol am delerau mwy cystadleuol. Mae'n debygol mai hyn fydd ar frig y materion fydd dan sylw'r Bwrdd dros y misoedd nesaf.

**Cofiwch, os ydych am dderbyn copi o gofnodion y Bwrdd wedi iddynt gael eu cadarnhau, yna anfonwch air at yr Ysgrifennydd, Gwilym Huws, (naill ai drwy ffonio 01443 225205 neu 07710 237327, fel arall gellir anfon e-bost i [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)).**



## NEWYDDION BRYS O RANDIROEDD Y TABERNACL

Ar drothwy'r tymor tyfu mae cyfle prin wedi codi i unrhyw un sy'n awyddus i rentu llain o dir yn y rhandir a hynny am bris rhesymol iawn. Am ragor o fanylion cysylltwch gydag Emlyn 'Pens' Jones cyn gynted ag sy'n bosib at:

07881 501137 [neu\\_pens37@outlook.com](mailto:neu_pens37@outlook.com)

## Rhag-rybudd

### CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG CWRDD CHWARTER

Nos Fercher, 25 Mai 2022  
Capel y Tabernacl, Efail Isaf

## Lansiad Ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar Undeb yr Annibynwyr



## PANED A CHLONC

Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

## CUPPA AND A CHAT

Come for a friendly and relaxed chat



Bob Dydd Mawrth

Every Tuesday

10.30-12.00

Y Ganolfan  
Capel Tabernacl  
The Vestry,  
Tabernacl Chapel

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)